Llywodraeth EM

Dewisiadau Gofal Plant

# Datganiad Newyddion

At sylw **Desgiau Newyddion ac Ariannu Personol** Nifer y tudalennau: 3

Dyddiad: **18 Rhagfyr 2017** Cyf: **WA SPEC 12/17**

# Rhieni yng Nghymru i elwa o gynllun Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer plant o dan 6 blwydd oed

Erbyn hyn, mae'r cynllun Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth ar gael i hyd at 50,000 o deuluoedd yng Nghymru y mae eu plentyn ieuengaf o dan chwe blwydd oed.

Gall rhieni, gan gynnwys y rhai sy'n hunangyflogedig, wneud cais ar-lein am Ofal Plant sy'n Rhydd o Dreth – sy'n rhan o gynnig Dewisiadau Gofal Plant y Llywodraeth – ar gyfer plant a oedd o dan chwe blwydd oed ar 24 Tachwedd 2017. Bydd y cynllun yn cwtogi ar gostau gofal plant teuluoedd sy'n gweithio gan hyd at £2,000 y flwyddyn ar gyfer pob plentyn, neu £4,000 ar gyfer plant anabl.

Caiff y cynllun Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth ei gyflwyno'n raddol i rieni sydd â phlant o dan 12 mlwydd oed. Bydd pawb sy'n gymwys i wneud hynny yn gallu gwneud cais erbyn diwedd mis Mawrth 2018.

Gall yr arian fynd tuag at ystod lawn o ofal plant sydd wedi'i reoleiddio, p'un ai'n feithrinfeydd, yn warchodwyr plant, yn glybiau ar ôl ysgol neu'n glybiau gwyliau. Ceir rhagor o wybodaeth i rieni ar y wefan Dewisiadau Gofal Plant (Childcare Choices) www.childcarechoices.gov.uk. Mae'r wefan hon yn cynnwys Cyfrifiannell Gofal Plant (www.gov.uk/childcare-calculator), sy'n cymharu holl gynigion gofal plant y Llywodraeth er mwyn gweld beth sy'n gweithio orau ar gyfer teuluoedd unigol.

Unwaith y bydd rhieni cymwys wedi agor eu cyfrif newydd, byddant yn gallu dechrau talu darparwr eu gofal plant ar unwaith, gan ddefnyddio cyfraniad y Llywodraeth.

Meddai Gabrielle Davies o Ogledd Cymru, sy'n fam i un plentyn ac sy'n cael Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth:

"Mae Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth wedi fy helpu i fynd yn ôl i'r gwaith – mae'r taliad atodol ychwanegol o 20% yn gwneud byd o wahaniaeth. Mae'r broses yn fwy syml na thalebau. Roedd yn rhaid i mi wneud dau daliad ar wahân cyn hyn, ond mae talu drwy'r cynllun Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth tipyn yn fwy syml.
Roedd darparwr fy ngofal plant wedi cofrestru eisoes, felly fe ychwanegais i nhw i'm cyfrif a dechrau'u talu - roedd yn hawdd iawn i'w wneud."

Meddai Leanne, mam o Dde Cymru sydd hefyd yn cael Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth:

"Ry'n ni 'di bod yn defnyddio Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth ers mis Mehefin. Dy'n ni ddim yn cael unrhyw gymorth arall, felly roedden ni 'di'n siomi ar yr ochr orau ein bod ni'n gallu cael Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth. Roedd y system yn hawdd iawn i'w defnyddio, ac mae'n braf teimlo'ch bod yn cael rhywbeth 'nôl i'ch helpu 'da'ch costau gofal plant. Ry'n ni bendant ar ein hennill nawr."

Meddai Liz Truss, Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys:

"Bydd Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth yn arbed miloedd o bunnoedd ar eu biliau gofal plant i filiynau o deuluoedd, gan ei wneud yn haws i ragor o rieni weithio os ydynt am wneud hynny. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i gefnogi teuluoedd, gan gynnwys eu helpu i ennill mwy, a chadw mwy o'r hyn y maent yn ei ennill, drwy gynyddu'r Isafswm Byw Cenedlaethol a thorri Treth Incwm ar gyfer miliynau o bobl."

Mae'r cynigion hyn yn adeiladu ar y cymorth gofal plant sydd eisoes ar gael i filoedd o deuluoedd yng Nghymru, gan gynnwys:

- lefel uwch o gymorth gofal plant drwy'r Credyd Cynhwysol
- credydau treth ar gyfer gofal plant
- talebau gofal plant.